RHONDDA CYNON TAF

| Fy Nghyf: My Ref: | GD/TM | Eich Cyf: Your Ref: | | Dyddiad: Date: | 27.01.23 |
|---|---|---|---|---|---|

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Mae'n bosibl eich bod chi'n gwybod bod Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) wedi cyhoeddi pedwar diwrnod o gamau gweithredu diwydiannol arfaethedig.

Dyma ddyddiadau'r camau gweithredu diwydiannol arfaethedig:

- Dydd Mercher 1 Chwefror 2023
- Dydd Mawrth 14 Chwefror 2023
- Dydd Mercher 15 Mawrth 2023
- Dydd Iau 16 Mawrth 2023

Bydd ysgol eich plentyn yn penderfynu a fydd yr ysgol yn parhau i fod ar agor ar y dyddiadau yma, a hynny'n seiliedig ar gyd-destun unigol yr ysgol ac asesiadau risg. Bydd ysgol eich plentyn yn bwriadu rhoi gwybod p'un a fydd yr ysgol ar agor ai peidio o leiaf tri diwrnod gwaith cyn pob un o'r dyddiadau yma.

Os bydd ysgolion yn gwneud penderfyniad i gau cyn diwrnod y camau gweithredu diwydiannol sydd wedi'i gynllunio, rydyn ni'n cynnig bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion ysgolion cynradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan y Cynnig Cyffredinol Prydau Ysgol am Ddim (disgyblion derbyn, blwyddyn 1 a disgyblion meithrin cymwys yn unig) yn gallu casglu pecyn bwyd o'u hysgol gymunedol leol rhwng 11yb a 12yp. Bydd disgyblion sy'n cael eu cludo i ysgolion (h.y. ysgolion Ffydd, ysgolion Cymraeg ac ysgolion uwchradd Saesneg), a rhai disgyblion yn ein hysgolion arbennig heb anghenion diet penodol, yn gallu cael mynediad i ysgol leol yn eu cymuned i gasglu pecyn bwyd. Os yw'ch plentyn yn cael ei gludo i'r ysgol, bydd ysgol eich plentyn yn cysylltu â chi'n fuan i drafod eich man casglu o ddewis. Mae'n bwysig nodi unrhyw ddisgyblion ag alergeddau os ydyn nhw'n casglu pecyn bwyd. Bydd y Gwasanaethau Arlwyo yn darparu gwasanaeth cinio yn ôl yr arfer i'r ysgolion hynny sydd ddim ar gau. Yn anffodus, oherwydd safonau diogelwch bwyd, ni fydd hi'n bosib bellach i anfon pecyn bwyd adref gyda'ch plentyn.

**Tŷ Trevithick**
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024

**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

DIOGELU DATA PROTECTION
MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Nodwch, fydd clybiau brecwast ddim ar gael ddydd Mercher, 1 Chwefror 2023.

Bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu am y tri diwrnod gweithredu diwydiannol pellach a gynigir maes o law.

Dyma roi gwybod i rieni a gwarcheidwaid y bydd cludiant ysgol ar gyfer disgyblion cymwys yn parhau yn ôl yr arfer (oni bai bod ysgol wedi penderfynu cau cyn diwrnod y camau gweithredu diwydiannol sydd wedi'i gynllunio).

Os bydd disgyblion yn cael eu cludo i'r ysgol a bod dosbarthiadau neu grwpiau blwyddyn yna’n cael eu heffeithio gan y streic ar y diwrnod hwnnw, bydd angen i ddisgyblion aros yn yr ysgol. Fydd dim modd i fysiau ddod i nôl disgyblion a’u gollwng yn y mannau casglu arferol yn y bore. Os bydd angen i ddisgyblion ddychwelyd adref, bydd angen i rieni a/neu warcheidwaid gasglu disgyblion o'r ysgol. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion.

Mae ysgolion yn gweithio'n agos gyda'u cyrff llywodraethu a'r Awdurdod Lleol er mwyn achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl, ac rydyn ni'n gwerthfawrogi'ch cefnogaeth ar gyfer ein staff a disgyblion.

Bydd eich ysgol yn rhoi gwybod i chi'n uniongyrchol am drefniadau lleol a bydd yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Cofion cynnes,



**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**